

Cymedroli asesiadau athrawon

Canllawiau pwnc-benodol i ysgolion a chlystyrau

2016/2017



Mae enghreifftiau o broffiliau dysgwyr ar gyfer pob pwnc, sy'n dilyn y canllawiau yn y ddogfen hon, yn cael eu datblygu a byddant ar gael i'r ysgolion drwy'r consortia.

Aseidiadau athrawon Saesneg

Dylid darllen y canllawiau hyn law yn llaw â 'Cymedroli aseidiadau athrawon - canllawiau i ysgolion a chlystyrau'

Yn Saesneg, mae'n rhaid i'r proffil dysgwr ddangos ystod gwaith dysgwr ar draws y tri tharged cyrhaeddiad (TC). Bydd proffil o'r fath yn cynnwys:

- llyfr y disgybl gyda darnau o waith yn cael eu cyfeirnoddi â nodiadau 'post-it' er mwyn dangos ble mae'r dystiolaeth yn dangos nodweddion y lefelau;
- llyfrau Saesneg, llyfrau testun/thema, llyfrau ymateb i ddarllen dan arweiniad, llyfrau pwnc e.e. Gwyddoniaeth, Drama, AG;
- tystiolaeth uniongyrchol, os yn bosibl, o ddisgybl yn cwblhau tasgau llefaredd e.e. clipiau fideo, gan sicrhau bod yr ansawdd yn ddigon da at ddibenion cymedroli;
- tystiolaeth ail-law ar gyfer tasgau darllen dan arweiniad a llefaredd, pan fo sylwadau'n cyfiawnhau dyfarniadau ar berfformiad y disgybl yn erbyn disgrifiadau lefel;
- sylwadau trosfwaol sy'n crynhoi ystod y dystiolaeth ac anodiadau'r athro (h.y. sylwadau asesu ffurfiannol) yn y proffil dysgwr drwyddo draw, gan ddangos sut mae'r dystiolaeth yn dangos lefel ffit orau gyffredinol ar draws y tri tharged cyrhaeddiad; mewn achosion ar y ffin, dylid cydnabod peth tystiolaeth o gyrhaeddiad ar y lefelau agosaf, ond hefyd dylid cynnwys cyfiawnhad diamwys am y lefel a ddyfarnwyd.

Mae'n rhaid i ddyfarniadau ffit orau a thrafodaethau athrawon fod yn seiliedig ar y disgrifiadau lefel ar gyfer Saesneg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru. Nid yw unrhyw fodolau sgiliau eraill yn briodol wrth hysbysu dyfarniadau mewn perthynas â lefelau ffit orau diwedd cyfnod allweddol.

Ar gyfer y broses gymedroli clwstwr, bydd angen i bob ysgol gyflwyno dau broffil dysgwr:

CA2 - un ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 4 iddo, ac un arall ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 5 iddo

CA3 - un ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 5 iddo, ac un arall ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 6 iddo

Efallai y bydd clwstwr yn dymuno ymestyn yr ystod gwaith hwn drwy gyfundeb e.e. bod ysgolion cynradd hefyd yn cyflwyno ffit orau lefel 6, a bod ysgol uwchradd hefyd yn cyflwyno ffit orau lefel 4

Sylwadau athrawon

Mae'n hanfodol yr ategir pob proffil dysgwr â sylwadau priodol a pherthnasol er mwyn dangos nodweddion y lefelau a ddyfernir. Mae'n bwysig bod y gweithgaredd hwn yn cael ei gwblhau gan yr athrawon Blwyddyn 6 a Blwyddyn 9 perthnasol cyn unrhyw gymedroli, oherwydd bod hyn yn rhoi cyd-destun i'r holl athrawon sy'n ymwneud â'r prosesau cymedroli.

Ystod y tasgau priodol

Llefaredd	Darllen	Ysgrifennu
<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyniad ar sgrin • Cymryd rhan mewn trafodaeth, gyda rolau diffiniedig • Perfformio barddoniaeth • Chwarae rôl • Gweithgaredd grŵp strwythuredig • Trafodaeth grŵp byrfyfyr • Gweithgaredd partner trafod • Gweithgareddau grŵp rhwydd e.e. jigso, negesyddion, pelen eira, triawdau • Sgwrs/cyflwyniad unigol • Sgwrs/cyflwyniad grŵp 	<ul style="list-style-type: none"> • Dysgwr yn perfformio testun • Dysgwyr yn egluro testun ar lafar i bartner/grŵp, cyflwyno sgwrs • Trafodaeth dysgwr a dysgwr/athro • Adolygu llyfrau (ysgrifenedig/llafar) • Crynodeb o ddigwyddiadau mewn testun • Ymateb ysgrifenedig byr i gwestiynau • Chwarae rôl neu weithgareddau drama eraill sy'n ymwneud ag ymateb • Ymateb estynedig, megis ysgrifennu estynedig, newid genre • Anodi testun • Cymharu testunau • Cynrychioliad graffig e.e. map meddwl, diagram Venn, rôl ar y wal, coeden thema, 	<ul style="list-style-type: none"> • Adrodd e.e. cofiant, bywgraffiad • Adroddiad anghronolegol e.e. cofnod mewn gwyddoniadur, erthygl mewn cylchgrawn • Cyfarwyddyd e.e. rysâit, gweithdrefnau • Eglurhad e.e. prosesu gwyddonol • Perswâd e.e. llythyr, hysbyseb • Trafodaeth e.e. dadansoddi llais awdurol, eitem newyddion amgylcheddol • Naratif • Barddoniaeth • Disgrifiad • Sgript drama • Newyddiadurol e.e. adroddiad papur newydd

	<p>darlun/model</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymateb personol i destun • Traethawd beirniadol estynedig e.e. dadansoddi plot, cymeriad a/neu thema • Ymateb i destun parhaus ac amharhaus • Sgiliau ymchwil • Synthesis a dadansoddi testunau • Defnyddio ystod o strategaethau, cip-ddarllen a llithr-ddarllen, macio testun 	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio nodweddion testun amharhaus
--	--	---

Sylwer, mae rhai o'r tasgau a restrir uchod yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddangos sgiliau ar draws mwy nag un targed cyrhaeddiad. Mae'n rhaid i dystiolaeth mewn proffil dysgwr adlewyrchu'n glir yr asesiad yn erbyn pob targed cyrhaeddiad.

Cwestiynau cyffredin mewn perthynas â phrosesau diwedd cyfnod allweddol ar gyfer Saesneg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

C. Beth yw'r disgwyliadau mewn perthynas â llefaredd ?

A. Yn yr ysgol ac mewn cyfarfodydd clwstwr, mae'n bwysig bod athrawon yn gallu gweld drostyn nhw eu hunain sut beth yw cyflwyno, cydweithio neu drafodaeth yn B6 a B9. Felly, byddai tystiolaeth fideo, cyflwyniad byw neu dystiolaeth lafar yn hollol briodol fel enghreifftiau o ddeilliannau disgyblion at ddibenion safoni a/neu gymedroli. Dylai'r rhain gael eu hategu gan nodiadau athrawon sy'n disgrifio'r cyd-destun a'r berthynas rhwng y dystiolaeth a nodweddion y lefel a gyrhaeddwyd. Dylai'r nodiadau hyn (tystiolaeth eilaidd) gynnig cyd-destun a digon o fanylion er mwyn galluogi i 'lygaid ffres' wneud dyfarniadau sicr ynghylch lefelau ffit orau. Mewn gair, dylai'r nodiadau ddangos yn glir sut mae athro wedi dyfarnu lefel ffit orau.

C. Beth yw'r disgwyliadau mewn perthynas â darllen ?

A. Dylai fod yna ddigon o dystiolaeth yn y proffil darllen i gynnwys ystod a sgiliau'r targed cyrhaeddiad yma (fel yn achos pob targed cyrhaeddiad). Felly, mae gosod tasgau yn hanfodol bwysig, a dylai ysgolion sicrhau bod tystiolaeth o ddarllen yn cynnwys ymatebion i ystod eang o destunau yn cynnwys barddoniaeth, rhyddiaith, testunau parhaus ac amharhaus a deunydd sy'n cyflwyno gwybodaeth. Dylai sylwadau'r athro ddangos nodweddion y targed cyrhaeddiad hwn a chyd-destun y dasg yn eglur. At ddibenion cymedroli, mae'n bwysig bod adnoddau/deunyddiau symbylu perthnasol ar gyfer darllen yn cael eu cynnwys yn y proffil, e.e. copi o gerdd, taflen, llyfr darllen neu ddetholiad o ryddiaith/testun y mae'r ymateb yn cyfeirio atynt.

C. Sawl darn o dystiolaeth sydd ei angen arnom ym mhob proffil dysgwr ar gyfer Saesneg ?

A. Casgliad o waith y dysgwr h.y. llyfrau Saesneg, llyfrau pynciol/thema, llyfrau ymateb i ddarllen dan arweiniad etc. a dylai deunyddiau perthnasol eraill gynnwys digon o dystiolaeth i gynnwys ystod a sgiliau pob targed cyrhaeddiad. Nid faint o ddarnau o waith sydd mewn proffil dysgwr sy'n bwysig, ond at faint y dylid cyfeirio atynt er mwyn cyflwyno achos argyhoeddiadol bod y gwaith, yn gyffredinol, wedi cyrraedd y lefel a ddyfarnwyd ar gyfer pob TC. Felly, mae gosod tasgau yn hanfodol bwysig wrth alluogi dysgwyr i ddangos sut maent wedi defnyddio eu sgiliau ar draws ystod o weithgareddau llefaredd, darllen ac ysgrifennu. Dylai hyn gynnwys symbyliad llenyddol ac anllenyddol a deilliannau darllen ac ysgrifennu.

C. All un darn o dystiolaeth ddangos ystod o sgiliau ar draws dau neu fwy o dargedau cyrhaeddiad mewn proffil dysgwr Saesneg?

A. Gall. Drwy osod tasgau yn ofalus a meddylgar, gall deilliannau dysgwyr ddangos nodweddion lefelau ar gyfer mwy nag un targed cyrhaeddiad. Er enghraifft, gall cyflwyniad llafar gynnwys tasgau paratoi sy'n gofyn i ddysgwyr ddangos sgiliau lefel uchel o ran darllen ac ysgrifennu; gall ymateb i ddarllen ddangos strwythur ysgrifennu da a chywirdeb technegol. Os bydd dysgwyr yn ymwybodol, drwy osod meini prawf llwyddiant priodol, y byddant yn cael eu hasesu ar gyfer mwy nag un targed cyrhaeddiad, mae'r math yma o dasg yn rhoi cyfleoedd i gynnal asesiadau athrawon manwl. Yn achos gosod 'tasgau cyfoethog', dylai'r sylwadau gyfeirio'n glir at nodweddion pob targed cyrhaeddiad a asesir.

Aseidiadau athrawon Cymraeg

Dylid darllen y canllawiau hyn law yn llaw â 'Cymedroli aseidiadau athrawon - canllawiau i ysgolion a chlystyrau'

Rhai esboniadau allweddol

Yn gryno, mae **safoni**'n cynnwys craffu ar ddarnau unigol o waith tra bod **cymedroli**'n ystyried ystod o waith gan ddysgwyr unigol.

Proffiliau Dysgwyr

Defnyddir y term hwn i ddisgrifio deunydd a gwybodaeth ychwanegol sy'n dangos ystod o waith ar gyfer dysgwyr unigol ar draws y tri tharged cyrhaeddiad. Gall proffil o'r fath gynnwys:

- Llyfr disgybl lle bo tasgau yn cynnwys "post-its" er mwyn nodi cynnwys tasg / gweithgaredd a'r modd y mae'r dasg / weithgaredd yn bwrw nodweddion lefel
- Gall y llyfrau yma fod yn llyfrau Cymraeg, thema, llyfrau darllen dan arweiniad, llyfrau pynciol e.e. Gwyddoniaeth, Drama, Addysg Grefyddol
- Nodiadau athro ar gyfer darllen dan arweiniad a thasgau llafar, lle bo'r nodiadau'n cyfeirio'n fanwl at berfformiad y disgybl yn erbyn y disgrifiadau lefel
- Sbardunau a deunydd paratoi a ddefnyddiwyd ar gyfer tasgau – er mwyn sicrhau bod cynnwys a chyd-destun tasgau yn amlwg
- i) Tystiolaeth sylfaenol o gyflawniad disgybl mewn tasgau llafar e.e. clipiau fideo, cryno-ddisg, gan sicrhau bod ansawdd y recordiad o safon uchel ar gyfer y broses gymedroli. Nid yw hyn o reidrwydd yn ofynnol
- ii) Tystiolaeth eilaidd, gan ddefnyddio nodiadau manwl athro a chyd-destun tasg / gweithgaredd, er mwyn adlewyrchu'r disgrifiadau lefel
- Sylwadau sy'n crynhoi'r amrediad o dystiolaeth a nodiadau'r athro yn y proffil dysgwyr, gan ddangos sut mae'r dystiolaeth yn adlewyrchu lefel ffit orau ar draws y tri tharged cyrhaeddiad
- Fe ddylai'r penderfyniadau ffit orau a thrafodaethau'r athrawon gael eu selio ar lefelau cyrhaeddiad Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yn unig.

Mae'n rhaid i ddyfarniadau ffit orau a thrafodaethau athrawon fod yn seiliedig ar y disgrifiadau lefel ar gyfer Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru.

Ar gyfer y broses gymedroli clwstwr, bydd angen i bob ysgol gyflwyno dau broffil dysgwr:

CA2 - un ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 4 iddo, ac un arall ar gyfer disgybl y dyfarnwyd fffit orau lefel 5 iddo

CA3 - un ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 5 iddo, ac un arall ar gyfer disgybl y dyfarnwyd fffit orau lefel 6 iddo

Pan fo disgyblion Cymraeg Iaith Gyntaf a Chymraeg Ail Iaith yn yr un ysgol gynradd argymhellir bod gwaith y ddau grŵp yn cael eu cynrychioli yn y proffiliau dysgwyr a gyflwynir i'r cyfarfod cymedroli clwstwr.

Efallai y bydd clwstwr yn dymuno ymestyn yr ystod gwaith hwn drwy gytundeb e.e. bod ysgolion cynradd hefyd yn cyflwyno ffit orau lefel 6, a bod ysgol uwchradd hefyd yn cyflwyno ffit orau lefel 4

Sylwadau athro

Argymhellir bod pob proffil dysgwr yn cynnwys sylwadau addas a pherthnasol er mwyn arddangos y nodweddion lefelau a ddyfernir. Mae'n hollbwysig fod hyn yn cael ei gwblhau gan athro B6 /9 cyn unrhyw gymedroli, gan y bydd hyn yn gosod cyd-destun ar gyfer yr athrawon sydd ynghlwm â'r diwrnod cymedroli.

Ystod o dasgau addas – argymhellion

Llafaredd	Darllen	Ysgrifennu
<ul style="list-style-type: none"> Cyflwyniad unigol gyda 'PowerPoint' ar sgrin Trafodaeth grŵp, gyda swyddogaethau wedi eu penodi Chwarae rôl Gweithgaredd grŵp i fynegi barn wedi ei baratoi Gweithgaredd grŵp yn cyflwyno / rhannu 	<ul style="list-style-type: none"> Dysgwr yn perfformio testun a ddarllenwyd Dysgwr yn egluro testun yn uchel i bartner / grŵp Trafodaeth – dysgwr a dysgwr / dysgwr ac athro Adolygiad llyfr (ysgrifenedig / llafar) Crynodeb o ddigwyddiadau mewn testun Ymateb ysgrifenedig byr i gwestiynau ar 	<ul style="list-style-type: none"> Dwyn i gof e.e. hanes taith Testun gwybodaeth - adroddiad anghronolegol e.e. gwyddoniadur, erthygl ar gyfer cylchgrawn Blog neu ddyddiadur Cyfweliad neu sylwebaeth Ymson cymeriad Cyfarwyddiadau e.e. rysâit, sut i greu

<p>gwybodaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymateb ar lafar i ddarllen e.e. trafod nofel • Trafodaeth bâr • Cyflwyniad grŵp • Araith yn mynegi barn / siarad cyhoeddus • Araith i berswadio 	<p>destun</p> <ul style="list-style-type: none"> • Chwarae rôl neu weithgareddau drama yn seiliedig ar destun darllen • Ymateb ymestynnol e.e. newid genre'r testun gwreiddiol • Nodiadau ar destun • Cymharu testunau • Arddangosfa graffig e.e. map meddwl, diagram Venn, coeden thema • Ymateb personol i destun – mynegi barn • Ysgrifennu llythyr / dyddiadur / ymson cymeriad yn seiliedig ar yr hyn a ddarllenwyd • Traethawd ymestynnol e.e. trafod plot, adeiladwaith, cymeriadau, themâu / gwerthuso testun neu destunau gwahanol • Ateb cwestiynau ar gynnwys ac arddull yr hyn a ddarllenwyd e.e. nofel, stori fer, barddoniaeth 	<p>carden decoupage</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esboniad e.e. proses wyddonol, digwyddiad hanesyddol • Perswadio e.e. llythyr, hysbyseb, erthygl neu daflen, araith • Trafodaeth – bwletin newyddion, llythyr yn trafod manteision ac anfanteision pwnc • Stori / stori fer • Barddoniaeth • Disgrifiad o berson / lle • Sgript ddrama • Adroddiad papur newydd / erthygl • Nodiadau i grynhoi • Cyflwyno gwybodaeth
---	---	---

Mae'r tasgau uchod yn gyfleoedd gwych ar gyfer asesu mwy nag un targed cyrhaeddiad. Dylai'r dystiolaeth ym mhroffil y dysgwr, fodd bynnag, adlewyrchu'n glir pa agweddau o'r lefelau cyrhaeddiad sydd wedi eu cyrraedd e.e. mewn tasg ymateb ar lafar i ddarllen.

Cwestiynau cyffredin ynghylch prosesau diwedd cyfnod allweddol ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf CA2/3

C. Allwch chi egluro'r gofynion ar gyfer llafaredd?

A. Yn yr ysgol ac mewn cyfarfodydd o fewn y clwstwr, mae'n hanfodol bod athrawon yn gallu gweld sut yn union y mae cyflwyniadau, cydweithio a thrafodaeth yn edrych ym mlynnyddoedd 6 a 9. Mae tystiolaeth fideo, cyflwyniadau byw neu dystiolaeth ar gryno-ddisg yn addas fel tystiolaeth o nodweddion lefel cyrhaeddiad ar gyfer safoni a/neu gymedroli. Er hyn, dylid sicrhau bod nodiadau manwl athrawon yn cael eu cynnwys, sy'n egluro cyd-destun a'r berthynas rhwng nodweddion y disgrifiadau lefel sydd wedi cael eu hadnabod gan yr athro a'r gwaith. Dylai'r nodiadau (tystiolaeth eilaidd) fod yn ddigon manwl i ddangos sut y ffurfiwyd barn ffit orau gan yr ysgol / athro a fydd yn galluogi llygaid ffres i ddeall a chytuno ar hyn.

Lle bo ysgol yn mynychu sesiynau gwirio tystiolaeth ar lefel ranbarthol neu genedlaethol, ni fydd tystiolaeth lefaredd sylfaenol yn angenrheidiol. Bydd y broses statudol ar lefel clwstwr wedi cynnwys ystyriaeth lawn o'r holl dystiolaeth mewn manylder. Bydd y nodiadau manwl ar gyfer gweithgareddau llafar (tystiolaeth eilaidd) yn gwbl addas ar gyfer proses wirio ddiweddarach.

Mae'n holl bwysig fod sbardunau wedi eu cynnwys gyda'r gwaith e.e. Os yw'r dysgwyr wedi ymateb i sbardun, megis darn darllen neu gerdd, yna fe ddylid cynnwys y sbardun ym mhroffil y dysgwr. Os yw'r dysgwyr wedi defnyddio PowerPoint, fe ddylai'r cyflwyniad gael ei gynnwys (wedi ei argraffu) yn y proffil. Hefyd, er mwyn cryfhau'r dystiolaeth, gellid cynnwys taflenni hunanwerthuso a / neu asesu cymheiriaid er mwyn dangos sut y mae'r dysgwr wedi cyrraedd y lefel cyrhaeddiad a'r hyn sydd angen anelu ato y tro nesaf.

C. Sawl darn o dystiolaeth sydd angen i ni ei gynnwys mewn proffil dysgwr Cymraeg?

A. Dylai proffil gynnwys ystod o dasgau dros gyfnod o amser. Dylid osgoi tasgau tebyg sy'n enghreifftio'r un sgiliau. Er na ellir pennu nifer y tasgau, argymhellir cynnwys 3-4 yr un o dasgau llafaredd, darllen ac ysgrifennu i enghreifftio ystod a nodweddion y lefel ffit orau. Rhaid i broffil gynnwys enghreifftiau o lefaredd unigol a grŵp, yn ogystal â darllen ac ysgrifennu llenyddol ac anllenyddol ar amrywiaeth o gyd-destunau e.e. llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Fe ddylai'r dystiolaeth ystyried cryfderau'r dysgwr a dangos yr agweddau i'w datblygu. Am wybodaeth ar gynnwys manwl a'r hyn y gallwch chi gynnwys mewn proffil, gweler y canllawiau pynciol ar gyfer y Gymraeg.

C. Ydy un darn o dystiolaeth yn gallu arddangos ystod o sgiliau ar draws dau darged cyrhaeddiad neu fwy, mewn proffil dysgwr Cymraeg?

A. Ydy, gyda gweithredu a chynllunio manwl, fe all canlyniad dysgwr arddangos nodweddion o lefelau mewn mwy nag un targed cyrhaeddiad. Er enghraifft, gall cyflwyniad llafar gynnwys tasgau paratoi sy'n gofyn i ddysgwyr arddangos lefelau uchel o ddarllen ac ysgrifennu; fe all ymateb i ddarllen arddangos strwythur ysgrifennu da a thechneg gywir. Os ydyw'r dysgwyr wedi cael eu hysbysu trwy feini prawf addas, eu bod yn cael eu hasesu ar sawl targed cyrhaeddiad, mae'r math hwn o dasg gyfoethog yn darparu cyfleoedd ar gyfer asesu athro manwl. Serch hynny, rhaid cofio nodi pa dargedau cyrhaeddiad sy'n cael eu hasesu'n glir, ac fe ddylai unrhyw sbardunau fod wrth law ar gyfer y cymedroli.

Asesiadau athrawon Cymraeg Ail Iaith

Dylid darllen y canllawiau hyn law yn llaw â 'Cymedroli asesiadau athrawon - canllawiau i ysgolion a chlystyrau'

Yn achos Cymraeg Ail Iaith, mae'n rhaid i'r proffil dysgwr ddangos ystod gwaith dysgwr ar draws y tri tharged cyrhaeddiad (TC). Bydd proffil o'r fath fel arfer yn cynnwys:

- llyfr y disgybl (llyfrau Cymraeg, llyfrau pynciol/thema, llyfrau ymateb i ddarllen dan arweiniad) gyda darnau o waith yn cael eu cyfeirnoddi â nodiadau 'post-it' er mwyn dangos ble mae'r dystiolaeth yn dangos nodweddion y lefelau;
- tystiolaeth uniongyrchol bod disgybl wedi cwblhau tasgau llefaredd e.e. clip fideo, gan sicrhau bod yr ansawdd yn ddigon da at ddibenion cymedroli; mae hwn yn ofyniad hanfodol oherwydd pwysoliad y targed cyrhaeddiad hwn (CA2 70% a CA3 60%). Gellid cynnwys trawsgrifiad o'r dystiolaeth, ond nid yw'n hanfodol;
- tystiolaeth ail-law ar gyfer tasgau darllen dan arweiniad a llefaredd, pan fo sylwadau'n cyfiawnhau dyfarniadau ar berfformiad y disgybl yn erbyn disgrifiadau lefel.

Mae'n rhaid i ddyfarniadau ffit orau a thrafodaethau athrawon fod yn seiliedig ar y disgrifiadau lefel ar gyfer Cymraeg Ail Iaith yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru. Nid yw unrhyw fodolau sgiliau eraill yn briodol wrth hysbysu dyfarniadau mewn perthynas â lefelau ffit orau diwedd cyfnod allweddol.

Ar gyfer y broses gymedroli clwstwr, bydd angen i bob ysgol gyflwyno dau broffil dysgwr:

CA2 - un ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 4 iddo, ac un arall ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 5 iddo

CA3 - un ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 5 iddo, ac un arall ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 6 iddo

Pan fo disgyblion Cymraeg Iaith Gyntaf a Chymraeg Ail Iaith yn yr un ysgol gynradd argymhellir bod gwaith y ddau grŵp yn cael eu cynrychioli yn y proffiliau dysgwyr a gyflwynir i'r cyfarfod cymedroli clwstwr.

Efallai y bydd clwstwr yn dymuno ymestyn yr ystod gwaith hwn drwy gytundeb e.e. bod ysgolion cynradd hefyd yn cyflwyno ffit orau lefel 6, a bod ysgol uwchradd hefyd yn cyflwyno ffit orau lefel 4

Sylwadau athrawon

Mae'n hanfodol yr ategir pob proffil dysgwr â sylwadau priodol a pherthnasol er mwyn dangos nodweddion y lefelau a ddyfernir. Mae'n bwysig bod y gweithgaredd hwn yn cael ei gwblhau gan yr athrawon Blwyddyn 6 a Blwyddyn 9 perthnasol cyn unrhyw gymedroli, oherwydd bod hyn yn rhoi cyd-destun i'r holl athrawon sy'n ymwneud â'r prosesau cymedroli.

Ystod y tasgau priodol

Llefaredd	Darllen	Ysgrifennu
<ul style="list-style-type: none">• Cyflwyniad ar sgrin• Ymateb llafar i symbyliad darllen• Ymateb llafar i symbyliad gwranddo / gwylio• Chwarae rôl• Trafodaeth grŵp• Sgwrs/cyflwyniad unigol• Sgwrs/cyflwyniad grŵp• Adrodd yn ôl (yn seiliedig ar nodiadau)• Chwarae rôl / sgwrs sefyllfaol• Trefnu / gwahodd / perswadio• Rhoi / derbyn cyfarwyddiadau• Sgwrs• Trafodaeth	<ul style="list-style-type: none">• Darllen ar lafar e.e. cerdd, stori, ffeithiol, gwaith y dysgwr• Ymateb llafar i symbyliad darllen• Ymateb ysgrifenedig i symbyliad darllen• Dealltwriaeth wrth ddarllen• Ymateb personol (ar lafar / ysgrifenedig) i ddeunydd llenyddol e.e. llyfrau storïau, cerddi, cylchgronau, llythyrau, e-bostion, cardiau post• Mynegi barn ar gynnwys y testunau <p>Dylai'r holl ymatebion fod yn yr iaith darged</p>	<ul style="list-style-type: none">• Cyflwyno gwybodaeth e.e. taflen wybodaeth, poster• Mynegi safbwyntiau e.e. adroddiad, adolygiad• Mynegi teimladau a syniadau e.e. portread, dyddiadur• Diddanu e.e. sgrïpt, stori• Barddoniaeth• E-bost• Blog• Cerdyn post• Erthygl e.e. adroddiad papur newydd, erthygl mewn cylchgrawn• Llythyr• Ymateb ysgrifenedig i symbyliad darllen• Ymateb ysgrifenedig i symbyliad gwranddo / gwylio

Mae rhai o'r tasgau a restrir uchod yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddangos sgiliau ar draws mwy nag un targed cyrhaeddiad. Mae'n rhaid i dystiolaeth mewn proffil dysgwr adlewyrchu'n glir yr asesiad yn erbyn pob targed cyrhaeddiad.

Cwestiynau cyffredin mewn perthynas â phrosesau diwedd cyfnod allweddol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

C. Beth yw'r disgwyliadau mewn perthynas â llythrennedd ?

A. Oherwydd y pwysoli mawr ar lefaredd yng nghyfnod allweddol 2 (70%) a chyfnod allweddol 3 (60%), mae'n hanfodol bod tystiolaeth sylfaenol uniongyrchol yn cael ei chynnwys yn y proffil. **Nid yw tystiolaeth eilaidd yn briodol.** Dylid darparu tystiolaeth o lefaredd ar fformat sain/sain weledol e.e. mae tystiolaeth fideo, cyflwyniad byw neu dystiolaeth lafar yn hanfodol er mwyn dangos deilliannau disgyblion at ddibenion safoni a/neu gymedroli. Dylai ysgolion sicrhau bod y dysgwr penodol y cyfeirir ato yn y proffil yn cael ei nodi yn glir.

Dylai'r dystiolaeth gael ei hategu gan nodiadau athrawon sy'n disgrifio'r cyd-destun a'r berthynas rhwng y dystiolaeth a nodweddion y lefel a gyrhaeddwyd. Dylai'r nodiadau hyn (tystiolaeth eilaidd) gynnig cyd-destun a digon o fanylion er mwyn galluogi i 'lygaid ffres' wneud dyfarniadau sicr ynghylch lefelau ffit orau. Mewn gair, dylai'r nodiadau ddangos yn glir sut mae athro wedi dyfarnu lefel ffit orau. Er mwyn dangos perfformiad ar draws yr ystod, mae angen i dystiolaeth o lefaredd gynnwys siarad a gwrando, gyda dysgwyr yn gweithio mewn amrywiaeth o gyd-destunau (gwyliau, chwaraeon, diddordebau, fi fy hun) a sefyllfaoedd; fel unigolion / aelodau o barau / grwpiau er mwyn cyfathrebu at nifer o ddibenion. Sylwer, nid yw darllen ar lafar yn dystiolaeth addas ar gyfer llefaredd. Mae darllen ar lafar yn rhan o darged cyrhaeddiad darllen.

C. Allwch chi egluro beth yw'r disgwyliadau mewn perthynas â darllen ?

A. Dylai fod yna ddigon o dystiolaeth yn y proffil darllen i gynnwys ystod a sgiliau'r targed cyrhaeddiad yma (fel yn achos pob targed cyrhaeddiad). Felly, mae gosod tasgau yn hanfodol bwysig, a dylai ysgolion sicrhau bod tystiolaeth o ddarllen yn cynnwys ymatebion i ystod eang o destunau yn cynnwys barddoniaeth, rhyddiaith, a deunydd sy'n cyflwyno gwybodaeth. Ystyrir bod cynnwys tystiolaeth o ddarllen ar lafar yn arfer dda (cerddi, storïau, gwaith y dysgwr ei hun) a dylid cyflwyno hyn ar fformat sain/sain weledol. Pan nad yw hynny'n bosibl, dylai sylwadau'r athro ddangos nodweddion y targed cyrhaeddiad hwn a chyd-destun y dasg yn eglur. At ddibenion cymedroli, mae'n bwysig bod adnoddau/deunyddiau symbylu perthnasol ar gyfer darllen yn cael eu cynnwys yn y proffil, e.e. copi o gerdd, taflen, llyfr darllen neu ddetholiad o ryddiaith/testun y mae'r ymateb yn cyfeirio atynt.

C. Sawl darn o dystiolaeth sydd ei angen arnom ym mhob proffil dysgwr ar gyfer Cymraeg Ail Iaith?

A. Casgliad o waith y dysgwr h.y. llyfrau Cymraeg, llyfrau pynciol/thema, a dylai deunyddiau perthnasol eraill gynnwys digon o dystiolaeth i gynnwys ystod a sgiliau pob targed cyrhaeddiad. Mae gosod tasgau yn hanfodol bwysig wrth alluogi dysgwyr i ddangos sut maent wedi defnyddio eu sgiliau ar draws ystod o weithgareddau llefaredd, darllen ac ysgrifennu. Dylai'r dystiolaeth gynnwys symbyliad llenyddol ac anllenyddol a deilliannau darllen ac ysgrifennu. Nid faint o ddarnau o waith sydd mewn proffil dysgwr sy'n bwysig, ond at faint y dylid cyfeirio atynt er mwyn cyflwyno achos argyhoeddiadol bod y gwaith, yn gyffredinol, wedi cyrraedd y lefel a ddyfarnwyd ar gyfer pob TC. At ddibenion cymedroli, mae'n bwysig bod adnoddau perthnasol a deunyddiau symbylu ar gyfer pob targed cyrhaeddiad yn cael eu cynnwys yn y proffiliau dysgwyr.

C. *All un darn o dystiolaeth ddangos ystod o sgiliau ar draws dau neu fwy o dargedau cyrhaeddiad mewn proffil dysgwr Cymraeg Ail Iaith?*

A. Gall. Drwy osod tasgau yn ofalus a meddylgar, gall deilliannau dysgwyr ddangos nodweddion lefelau ar gyfer mwy nag un targed cyrhaeddiad. Er enghraifft, gall cyflwyniad llafar gynnwys tasgau paratoi sy'n gofyn i ddysgwyr ddangos sgiliau lefel uchel o ran darllen ac ysgrifennu; gall ymateb i ddarllen ddangos strwythur ysgrifennu da a chywirdeb technegol. Os bydd dysgwyr yn ymwybodol, drwy osod meini prawf llwyddiant priodol, y byddant yn cael eu hasesu ar gyfer mwy nag un targed cyrhaeddiad, mae'r math yma o dasg yn rhoi cyfleoedd i gynnal asesiadau athrawon manwl. Yn achos gosod 'tasgau cyfoethog', dylai'r sylwadau gyfeirio'n glir at nodweddion pob targed cyrhaeddiad a asesir.

Asesiadau athrawon Mathemateg

Dylid darllen y canllawiau hyn law yn llaw â 'Cymedroli asesiadau athrawon - canllawiau i ysgolion a chlystyrau'

Proffil Dysgwr - Casgliad o Dystiolaeth

Bydd y proffil dysgwr yn cynnwys:

- llyfrau mathemateg y disgybl, wedi eu hategu gan enghreifftiau perthnasol o sgiliau rhifedd wedi eu cymhwyso ar draws y cwricwlwm;
- sylwadau ysgrifenedig yr athro.

Mae natur mathemateg yn golygu bod dealltwriaeth y disgybl yn dibynnu ar gamau bach a chysylltiadau graddol a chynyddol ym maes mathemateg, a dysgu ffeithiau a strategaethau mewn modd dilyniannol sy'n datblygu rhwyddineb yn ystod y flwyddyn. Er bod pob sgil newydd yn cael ei ddysgu ar adeg benodol, mae angen cynllunio cyfleoedd drwy gydol y flwyddyn er mwyn galluogi disgyblion i ymarfer a chyfuno'r sgiliau hyn yn rheolaidd fel eu bod yn gallu eu cymhwyso yn gywir a hyderus ar draws ystod eang o gyd-destunau.

At ddiben Asesiadau Athrawon a chymedroli diwedd cyfnod allweddol, mae'n bwysig defnyddio gwaith y flwyddyn gyfan yn llyfrau mathemateg y disgyblion yn ogystal ag enghreifftiau penodol o sut mae disgyblion yn cymhwyso sgiliau ar draws y cwricwlwm. Oherwydd na fydd llyfrau'r disgyblion yn gyffredinol yn cynnwys tystiolaeth o'u gallu i gofio ffeithiau am rifau, gwneud cyfrifiadau pen a dangos agweddau o resymu rhifiadol, bydd angen i'r agweddau hyn gael eu mynegi yn sylwadau ysgrifenedig yr athro. Mae cymedroli yn dibynnu ar graffu ar draws y rhaglen astudiaeth gyfan (sgiliau ac ystod) ac mae casgliad o waith disgybl yn tanategu'r broses honno.

Er mwyn hwyluso'r broses i'r rhai sy'n gwneud y gwaith cymedroli, mae'r defnydd o nodiadau 'post-it' yn fuddiol o ran cyfeirio at ddarnau allweddol o dystiolaeth. Hefyd gellir ystyried tudalennau eraill yn llyfrau disgyblion wrth ystyried taith gyffredinol y disgybl tuag at y cerrig milltir allweddol yma. Pan nad yw'n glir faint o gymorth a roddwyd i'r disgyblion, neu pa strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt, bydd angen i'r athro dosbarth gynnwys rhai pwyntiau byr yn y sylwadau er mwyn egluro'r ffactorau hyn all effeithio ar y lefel a ddyfernir. Gall hyn hefyd gael ei gyflwyno fel rhan o asesiad ffurfiannol yr athro, neu gellir eu nodi ar 'post-its' fel cyfeirnodau yng ngwaith y disgybl.

Pan fo proffil dysgwr rhwng dwy lefel (e.e. lefel 4 cryf/lefel 5 gwan), bydd angen adlewyrchu'r ddwy lefel yn y sylwadau. Oherwydd hynny, dylai'r sylwadau ddarparu cyfiawnhad clir am y ffit orau a ddyfarnwyd gan yr ysgol.

Mae'n rhaid i ddyfarniadau ffit orau a thrafodaethau athrawon fod yn seiliedig ar y disgrifiadau lefel ar gyfer Mathemateg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru.

Ar gyfer y broses gymedroli clwstwr statudol, bydd angen i bob ysgol gyflwyno dau broffil dysgwr:

CA2 - un ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 4 iddo, ac un arall ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 5 iddo

CA3 - un ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 5 iddo, ac un arall ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 6 iddo

Efallai y bydd clwstwr yn dymuno ymestyn yr ystod gwaith hwn drwy gytundeb e.e. bod ysgolion cynradd hefyd yn cyflwyno ffit orau lefel 6, a bod ysgol uwchradd hefyd yn cyflwyno ffit orau lefel 4

Cwestiynau cyffredin mewn perthynas â phrosesau diwedd cyfnod allweddol ar gyfer Mathemateg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

C. *Beth yw'r ystod o waith y dylid ei dystiolaethu mewn proffil dysgwr mathemateg ('casgliad o waith')?*

A. Dylid cael digon o dystiolaeth mewn proffil dysgwr (h.y. llyfr mathemateg y disgybl a gwaith perthnasol arall) er mwyn cynnwys ystod a sgiliau'r rhaglen astudiaeth gyfan. Mae gosod tasgau priodol yn hanfodol bwysig o ran galluogi disgyblion i ddangos sut maent yn cymhwyso sgiliau ar draws ystod o weithgareddau mathemategol, yn ogystal ag mewn ystod o gyd-destunau bywyd go iawn. Yn ogystal â mesuriadau ac arian, siâp, lleoliad a symudiad a thrin data, mae'n rhaid i'r dystiolaeth gynnwys ystod o dasgau priodol heriol ym maes rhifau. Mae hyn y tu hwnt i gymhwyso sgiliau rhifau yn syml wrth ddatrys problemau geiriol un a dau gam.

C. *Sawl darn o dystiolaeth sydd ei angen arnom ym mhob proffil dysgwr ar gyfer Mathemateg ?*

A. Nid yw'n briodol argymhell nifer penodol o ddarnau o waith oherwydd mae'n dibynnu ar natur y gweithgaredd. Fodd bynnag, dylid cael digon o dystiolaeth ym mhob proffil dysgwr er mwyn cynnwys ystod a sgiliau'r rhaglen astudiaeth gyfan. Felly, at ddibenion cymedroli, bydd angen defnyddio gwaith y flwyddyn gyfan yn llyfrau mathemateg y disgyblion, yn ogystal ag enghreifftiau penodol o sut mae'r disgyblion yn cymhwyso sgiliau ar draws y cwricwlwm, pan fo hynny'n berthnasol, er mwyn cyfiawnhau'r lefel a ddyfarnwyd. Hefyd, bydd angen i athrawon ddarparu gwybodaeth na ellir ei thystiolaethu yn llyfrau'r disgyblion, ac mae angen i hyn gael ei fynegi yn sylwadau'r athro. Nid faint o ddarnau o waith sydd mewn proffil dysgwr sy'n bwysig, ond at faint y dylid cyfeirio atynt er mwyn cyflwyno achos argyhoeddiadol bod y gwaith, yn gyffredinol, wedi cyrraedd y lefel a ddyfarnwyd.

C. *A oes angen enghreifftio'r targed cyrhaeddiad cyfan?*

A. Oherwydd bod mathemateg yn cynnwys nifer o gamau a thestunau mân, gall hyn ar brydiau achosi i athrawon ddyfarnu lefel uwch pan nad yw'r disgyblion mewn gwirionedd ond yn ymgysylltu â dim mwy nag ychydig o agweddau mwyaf hygyrch y lefel nesaf wrth iddynt ddechrau pontio at waith caletach. Mae'n werth cofio'r ymadrodd 'un wennol ni wna wanwyn' yn y cyswllt hwn. Er enghraifft, er mwyn gallu dyfarnu lefel 5 yn gyffredinol i ddisgybl, mae'n hanfodol y gall ddangos sgiliau rhifedd ar y lefel honno mewn tasgau sy'n briodol heriol. Nid yw'n ddigonol iddo gyrraedd lefel 5 ar draws gweddill y targed cyrhaeddiad yn unig, neu mewn ambell faes y disgrifiad lefel yn unig.

C. *Beth sy'n digwydd os oes gan ddisgybl dystiolaeth o fwy nag un lefel?*

A. Os dyfernir bod disgybl ar y ffin rhwng dwy lefel, mae'n hanfodol bod y sylwadau yn egluro pam y gwnaethpwyd y penderfyniad terfynol. Bydd angen i hyn adlewyrchu cyrhaeddiad y disgybl mewn perthynas â'r elfennau sgiliau ac ystod, ac mae'n hanfodol y cyfeirir at waith ar y **ddwy** lefel a ystyriwyd. Mae'n bwysig cofio bod disgybl sy'n gweithio ar ben uchaf unrhyw lefel (e.e. lefel 4a) yn 'dangos nodweddion amlwg o'r lefel honno ar draws ystod o waith [h.y. nid enghreifftiau unigol o sgiliau] gyda rhai enghreifftiau o nodweddion ar y lefel nesaf' (h.y. lefel 5). Mewn achosion o'r fath, bydd gan ddisgyblion enghreifftiau o waith o'r lefel nesaf, ond dim digon i sicrhau mai honno yw'r lefel ffit orau briodol a ddyfernir. Fodd bynnag, mae angen i'r sylwadau egluro hyn yn drylwyr.

Asesiadau athrawon Gwyddoniaeth

Dylid darllen y canllawiau hyn law yn llaw â 'Cymedroli asesiadau athrawon - canllawiau i ysgolion a chlystyrau'

Mae'n rhaid i ddyfarniadau ffit orau a thrafodaethau athrawon fod yn seiliedig ar y disgrifiadau lefel ar gyfer Gwyddoniaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru.

Dylai proffil dysgwr mewn gwyddoniaeth gynnwys:

- tystiolaeth o waith gwyddoniaeth y disgybl ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Fel arfer bydd proffil dysgwr yn cynnwys llyfr gwaith y disgybl neu ffolder o waith, ac unrhyw fath arall o dystiolaeth ddogfennol o'i gyflawniadau. Mewn ysgolion cynradd, gall proffil dysgwr fod ar ffurf llyfr pynciol neu lyfr thema sy'n cynnwys gwaith gwyddoniaeth disgybl;
- tystiolaeth o bob rhan o'r ystod gwyddoniaeth: *Cyd-ddibyniaeth organebau, Y Ddaear gynaliadwy a Sut mae pethau'n gweithio*. Nid oes disgwyl i'r holl gydrannau ar draws yr ystod gael sylw llawn. Er enghraifft, gellid enghreifftio *Sut mae pethau'n gweithio* gyda gwaith ar gylchedau trydan a grymoedd yn unig;
- tystiolaeth bod y disgybl wedi meistrolï'r ystod o sgiliau gwyddoniaeth mewn perthynas â Chyfathrebu ac Ymholi ar y lefel a ddyfarnwyd (yn cynnwys Cynllunio, Datblygu a Myfyrio). At ddibenion y broses hon, rydym nawr am ystyried yr holl sgiliau gwyddoniaeth yma, fydd yn cael eu cynrychioli gan feysydd dilyniannol Llywodraeth Cymru, a geir yn nogfen disgrifiadau lefel ar gyfer gwyddoniaeth cyfnodau allweddol 2 a 3;
- tystiolaeth o gyfleoedd i ymgysylltu ag ystod o wahanol fathau o ymholiadau: chwilio am batrwm, archwilio, dosbarthu ac adnabod, gwneud pethau, profi teg a defnyddio a chymhwyso modelau;
- tystiolaeth fo'r disgybl yn gallu dod â sgiliau ymholi gwyddonol unigol at ei gilydd a'u cymhwyso i ymchwiliadau llawn.

Dylai sylwadau cryno ategu pob proffil dysgwr. Bydd y sylwadau fydd yn ategu proffil dysgwr yn egluro sut mae'r ysgol wedi dyfarnu'r ffit orau. Dylent gyfeirio at y lefelau agosaf a samplau o waith o'r proffil dysgwr. Bydd gofyn i athrawon Blwyddyn 6 a Blwyddyn 9 chwarae rôl bwysig wrth gynhyrchu'r sylwadau.

Mae'r sylwadau yn crynhoi'r dystiolaeth sy'n gynnwysedig yn y proffil ac mae'n dangos sut mae'r dystiolaeth yn arwain at ddyfarnu'r lefel ffit orau i'r dysgwr. Yn achos proffiliau dysgwyr y bernir eu bod yn cynrychioli perfformiad ar y ffin rhwng lefelau, bydd y sylwadau yn egluro pam na ddyfarnwyd y lefel uwch neu'r lefel is i'r proffil.

Nid oes angen sylwadau tasg-benodol manwl. Ychwanegwyd y sylwadau tasg-benodol yn y deunyddiau enghreifftiol at ddibenion eglurhaol yn unig.

Ar gyfer y broses gymedroli clwstwr statudol, bydd angen i bob ysgol gyflwyno dau broffil dysgwr:

CA2 - un ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 4 iddo, ac un arall ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 5 iddo

CA3 - un ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 5 iddo, ac un arall ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 6 iddo

Efallai y bydd clwstwr yn dymuno ymestyn yr ystod gwaith hwn drwy gyfundeb e.e. bod ysgolion cynradd hefyd yn cyflwyno ffit orau lefel 6, a bod ysgol uwchradd hefyd yn cyflwyno ffit orau lefel 4

Cwestiynau cyffredin mewn perthynas â phrosesau diwedd cyfnod allweddol ar gyfer Gwyddoniaeth yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

C. *Sawl darn o dystiolaeth sydd ei angen arnom ym mhob proffil dysgwr ar gyfer Gwyddoniaeth ?*

A. Nid yw'n briodol argymhell nifer penodol o ddarnau sy'n galluogi dyfarnu ffit orau, ond llyfr Gwyddoniaeth cyflawn ynghyd â gwaith Gwyddoniaeth arall a gofnodwyd fyddai orau ar gyfer cynrychioli'r proffil dysgwr. Mae faint o dystiolaeth fydd ei hangen ar ysgol yn dibynnu ar ystod a natur y tasgau y mae'r disgyblion yn ymgymryd â hwy, e.e. p'un a yw'r disgybl wedi casglu dystiolaeth o dasgau byrrach sy'n canolbwyntio ar sgiliau neu ymchwiliadau mwy cyflawn. Fodd bynnag, dylid cael digon o dystiolaeth ym mhob proffil dysgwr er mwyn cyfiawnhau'r lefel a ddyfarnwyd. Fel arfer, byddai proffil dysgwr yn cynnwys ystod o dystiolaeth, yn cynnwys tasgau sgiliau arwahanol (e.e. graffiau), gwaith ymchwil mwy strwythuredig ac ymchwiliadau cyflawn (pan geir dystiolaeth o gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwaith gwyddonol gan y disgybl).

C. *All un darn o dystiolaeth ddangos ystod o sgiliau mewn proffil dysgwr Gwyddoniaeth?*

A. Gall. Drwy osod tasgau yn ofalus a meddylgar, gall un sampl o waith ddangos nodweddion nifer o sgiliau ymholi. Hefyd, gall un sampl o waith gynnwys nodweddion mwy nag un lefel.

C. A ddylai ysgolion amcanu at gynnwys tystiolaeth ar gyfer yr 14 sgil ymholi?

A. Dylent. Mae'r proffil dysgwr yn cynrychioli gallu'r dysgwr i ddangos ei feistrolaeth ar sgiliau gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol. Pan fo'n bosibl, dylai ysgolion amcanu at gynnwys tystiolaeth ar gyfer pob agwedd o'r sgiliau gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mewn achosion pan gyflwynir tystiolaeth o waith y flwyddyn flaenorol, cynigir bod hyn yn cael ei ddarparu fel tystiolaeth ategol. Mae nifer fechan o feysydd sgiliau yn anoddach i'w tystiolaethu ar bapur (e.e. monitro cynnydd). Yn yr achosion hyn efallai y bydd angen i ysgolion ystyried defnyddio tystiolaeth o arsylwadau athrawon.

C. Sut y penderfynir ar y lefel ffit orau a sut y'i tystiolaethir?

A. Mae'n ddefnyddiol anodi'r enghreifftiau mwyaf diweddar o waith gwyddoniaeth disgybl â sylwadau sy'n gysylltiedig â lefel. Mae'n ddefnyddiol i rai ysgolion ddefnyddio nodiadau 'post-it' er mwyn cyfeirio at y nodweddion lefel pwysicaf yn llyfr y disgybl (neu dystiolaeth arall). Efallai y bydd ysgolion yn ystyried ei bod yn ddefnyddiol ychwanegu'r nodweddion lefel yma at feysydd dilyniannol Llywodraeth Cymru a geir yn nogfen disgrifiadau lefel ar gyfer gwyddoniaeth cyfnodau allweddol 2 a 3, fel y gallant asesu dosbarthiad nodweddion lefel. Parhewch gyda'r broses hon a gweithio am yn ôl drwy waith y disgybl nes bod athrawon yn gallu sicrhau dyfarniad ffit orau yn erbyn ystod o sgiliau gwyddoniaeth ar y lefel a ddyfarnwyd.

C. Beth sy'n digwydd os oes gan ddisgybl dystiolaeth o fwy nag un lefel?

A. Os dyfernir bod disgybl ar y ffin rhwng dwy lefel, mae'n hanfodol bod y sylwebaeth yn egluro pam y gwnaethpwyd y penderfyniad terfynol. Bydd angen i hyn gyfeirio at waith ar y **ddwy** lefel a ystyriwyd. Mae'n bwysig cofio bod disgybl sy'n gweithio ar ben uchaf unrhyw lefel (e.e. lefel 4 cryf) yn 'dangos nodweddion amlwg o'r lefel honno ar draws ystod o waith [h.y. nid enghreifftiau unigol] gyda rhai enghreifftiau o nodweddion ar y lefel nesaf' (h.y. lefel 5).

C. A oes raid i'r gwaith sy'n gynnwysedig ym mhroffil y dysgwr berthyn i flwyddyn olaf y cyfnod allweddol?

A. Disgwylir y bydd y proffil dysgwr yn cynnwys tystiolaeth o waith mwyaf diweddar y disgybl h.y. o'r flwyddyn bresennol. Fodd bynnag, gall fod yna achosion pan gyfeirir at waith o'r flwyddyn flaenorol fel tystiolaeth ategol.

C. All gwahanol athrawon anodi/marcio'r gwaith sy'n gynnwysedig ym mhroffil y dysgwr?

A. Gallant.

C. Allaf i gynnwys tystiolaeth fideo a ffotograffig yn y proffil dysgwr?

A. Gallwch. Gellir ystyried bod hyn yn dystiolaeth ddefnyddiol i'w chyflwyno i gyfarfod cymedroli ynghyd â thystiolaeth ar bapur.